CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

*Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd am 7pm ar 2 Tachwedd 2020 yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd)(Cymru 2020.*

*Roedd y Cod Ymddygiad a'r Gorchmynion Sefydlog ac Ariannol yn gymwys yn ystod y cyfarfod.*

---

Presennol: Cadeirydd: Cyng Steve Kings Cyngh: Hywel Davies, Iwan Davies, Amanda Edwards, Laura Holder, Nicky Redmond, Ken Symmons, Claire Proven

CS Clive Davies

Clerc

Aelodau'r cyhoedd a'r wasg: 0

Croesawodd y Cadeirydd y Cyng Claire Proven i'r cyfarfod.

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng H Davies.

**2. Datgan Diddordeb ar faterion sy'n codi o'r Agenda**
Dim.

**3. Cadarnhau Trefn yr Agenda** a nodi unrhyw eitemau y gellid eu datrys ar gyfer sesiwn gyfrinachol
Derbyniwyd yr agenda fel y cafodd ei chyflwyno.

**4. Cadarnhau cofnodion 05.10.20**
Cynigiodd y Cyng N Redmond y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir, eiliwyd gan y Cyng I Davies, cytunwyd.

**5. Ceisiadau Cynllunio**
A200811 Tir yn ffinio â Maescynllo, Llangoedmor, SA43 2LJ
**Cynnig**: Codi un annedd fforddiadwy (Disgownt am Werthu) (caniatâd amlinellol a'r holl faterion wedi'u neilltuo).
Nodwyd

A200831 Noyadd Wilym, Llechryd, Aberteifi, Ceredigion, SA43 2NH
**Cynnig:** Newid defnydd 3 ystafell wely ac ystafelloedd ymolchi ac ystafell fyw ar gyfer gofal ysbaid achlysurol ar y cyd â busnes presennol Gofal Cymru (Care Wales)
Roedd y Cyngor Cymdeithas yn cefnogi'r cais.

Mae dogfennau cynllunio i'w gweld yn: https://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-and-sustainable-drainage-body-sab/planning-building-control/

**6. Adroddiad y Cynghorydd SIr**

Dywedodd y CS Clive Davies ei fod wedi ymweld â'r OPD ym Mhencoed a bod y gwaith yn dod ymlaen yn dda.

Dywedodd ei fod, fel Hyrwyddwr Digidol CS Ceredigion, yn gweithio gyda swyddogion ar y seilwaith digidol a'r ymrwymiad i ddarparu o leiaf 10 megs gan BT.

Dywedodd fod y draeniau yn Stryd Allan i gael ei ail-wneud fel mater o flaenoriaeth uchel.

Dywedwyd bod niwed i'r arwyddion yn y lle chwarae ac adroddiadau am yfed y tu ôl i Neuadd y Cwrwgl wedi eu rhoi i'r heddlu a bod rhif trosedd wedi ei ddarparu. Byddai swyddogion PCSO yn cynnwys y mannau hyn yn eu patrôl. Nodwyd y gallai'r materion gael eu trafod yn y cyfarfod PACT ar 10 Tachwedd.

Nid oedd dim cynlluniau ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb ar lefel y Sir er bod cyfyngiadau'r cyfnod clo yng Nghymru wedi eu codi ar 9 Tachwedd. Ond byddai swyddogion Cyngor ychwanegol ar gael i orfodi'r rheoliadau Covid.

**7. Cyllid a Gweinyddu**

**7.1 Taliadau Misol**

*7.1.1 Cymeradwyo cyfrifon sy'n daladwy*

| | Talai | Am | banc |
|---|---|---|---|
| 30.10.20 | LAS | DD | 22.74 |
| 7.09.20 | HARC | | 99.60 |
| | S E Davies | Cyflog | 398.05 |
| | S E Davies | Swyddfa yn y cartref 25/post 12.46/ cerdyn 4.05 | 41.51 |
| | S Kings | Arwyddion bloc toiledau | 38.10 |
| | Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol | Aelodaeth | 47.09 |

Cynigiwyd gan y Cyng I Davies, eiliwyd gan y Cyng L Holder, cytunwyd.

Cytunodd y Cyngor i weithio mewn partneriaeth â'r grŵp Parti i ddarparu cardiau Nadolig ar gyfer yr henoed. Byddai'r Cyngor yn talu'r costau hyd at £150 a'r taliad yn cael ei gytuno gan y Clerc drwy ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

*7.Cyllideb 1.2 2021-22*

Nodwyd y ffigurau dros dro, ond nid oedd costau ar gyfer y cyfarpar chwarae newydd wedi cyrraedd. Y dyddiad terfynol ar gyfer cytuno'r gyllideb a'r praesept oedd y cyfarfod yn Ionawr 2021.

*7.1.3 Bancio ar-lein*

Byddai'r llofnodwyr yn cael linc oddi wrth y Clerc i gofrestru ar gyfer mynd i mewn i'r cyfrif ar-lein.

***7.2 Ystyried cyfethol Ms* Garethe Eltawab**

Cytunwyd a phenderfynwyd trefnu'r bleidlais drwy bleidlais gudd, nid drwy godi llaw.
Gan mai cyfarfod rhithwir oedd hwn, 'anfonwyd' y Cynghorwyr i gyd i'r ystafell aros a'u galw'n ôl yn unigol i fwrw'u pleidlais a'r Clerc wedyn yn eu casglu.
Cytunwyd i beidio â chyfethol Ms Eltawab i'r Cyngor.

Gweithredu: Rhoi gwybod i Ms Eltawab GAN: Y Clerc

***7.3 Cadarnhau bod contract cynnal a chadw'r tir wedi ei anfon allan***
Nodwyd

***7.4 Diweddariad Archwiliad Allanol***
Nodwyd yr archwiliad heb ei gymhwyso, a dywedodd y Clerc bod yr hysbysiadau diwedd archwiliad wedi eu postio.

***7.5 Cymeradwyo dyddiadau cyfarfodydd 2021***
Cynigiodd y Cyng I Davies y dylid derbyn y dyddiadau, eiliwyd gan y Cyng A Edwards, a chytunwyd.

**7.6 Cytuno i benodi Cynrychiolydd /Cynrychiolwyr ar bwyllgor ardal Un Llais Cymru**
Cytunwyd na fyddai'r Cyngor yn penodi cynrychiolydd.

***7.7* Trefniadau Archwiliadau'r Dyfodol ar gyfer Cynghorau Cymdeithas a Thref yn webinar Cymru 17.11.20**
Dywedodd y Clerc ei bod wedi cofrestru ar gyfer y webinar.

**7.8 Webinar Hyfforddiant SLCC i Ymddiriedolaethau Elusennol**
Cytunwyd y dylai'r Clerc gofrestru ar gyfer y webinar.

**8. Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
***8.1 Croes-y-Llan***
Y pryderon i gael eu codi yn y cyfarfod PACT ym mis Rhagfyr.

***8.2 Llwybrau Troed / Ffordd i Aberteifi***
*8.2.1 Diweddariad am y cynnydd gyda'r map cerdded*
Dywedwyd bod gwaith yn mynd yn ei flaen ac y byddai adroddiad ar gael i'r Cyngor maes o law.

*8.2.2 Diweddariad am ffordd i Aberteifi*
Nodwyd y byddai Sustrans yn ymwneud ar ran CSC fel rhan o'r Arolwg Mapio Rhwydwaith Teithio Llesol maes o law.

***8.3 Pont Llechryd***
*Nodwyd y sefyllfa gyfredol a chytuno ar unrhyw weithredu pellach*
Nodwyd bod sbwriel wedi crynhoi eto ond nad oedd y bont ar gau ar hyn o bryd.

**9. Amwynderau**
**9.1 Ailagor y Bloc Toiledau / *Patrol* Sbwriel**

*9.1.1*
Roedd y Clerc wedi cyfarfod â gweithredwyr Danfo i gyflwyno'r allweddi a cherdded gyda nhw drwy'r sesiwn codi sbwriel. Roedd y bloc wedi ei lanhau'n drwyadl a blwch sebon ychwanegol wedi ei adnewyddu. Pe bae popeth wedi mynd yn iawn, byddai'r agoriad wedi digwydd ar 1 Tachwedd 2020.

9.1.2 Cymeradwyo asesiadau risg
Cafodd yr asesiad risg COVID a chyffredinol ar gyfer y bloc toiledau ei gymeradwyo, a hefyd yr asesiad risg ar gyfer Eglwys y Groes Sanctaidd, Llechryd. Byddai angen archwiliad diogelwch trydan yn y bloc yn 2021.

9.1.3
*Glanhau/peintio ystafell storio'r bloc toiledau ac adnewyddu'r sestonau dŵr*
Cytunwyd i osod drws newydd i'r man storio gan fod y drws presennol yn anodd ei agor oherwydd ei fod wedi mynd yn gam.

***9.2 Man/Cae Chwarae***
9.2.1 Ffiniau – cytuno ar ffordd ymlaen

9.2.1.1 Y Cae
Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn cefnogi penodi'r cyfreithwyr i wneud y gwaith angenrheidiol i gofrestru'r tir. Yn y lle cyntaf roedd angen mapio'r ardal yn broffesiynol, a byddai unrhyw gostau am waith ffensio ar gyfer yr Elusen yn cael ei ohirio nes i hynny gael ei gwblhau.
Nodwyd y byddai angen i'r Elusen gael cymorth grant i dalu am y costau cyfreithiol.
GWEITHREDU: Yn amodol ar gymeradwyaeth gan yr Elusen, cysylltu â'r cyfreithiwr GAN: Y Clerc

9.2.1.2 Parc ceir – Neuadd y Cwrwgl
Cytunwyd i benodi'r cyfreithiwr i fynd ymlaen â mater sefydlu pwy yw'r perchennog, gan mai hynny fyddai fwyaf llesol i'r gymuned.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r cyfreithiwr GAN: Y Clerc

*9.2.2 Adnewyddu'r ffrâm ddringo* – ystyried cynlluniau
Nid oedd y cynlluniau dewisol ar ffurf cromen yn iawn ar gyfer y lle oedd ar gael, ac roedd y Clerc wedi gofyn i nifer o gwmnïau ddarparu cynlluniau a dyfynbrisiau addas ar gyfer y lle. Nid oedd y rheiny wedi cyrraedd hyd yma.
GWEITHREDU: Anfon gwybodaeth o gwmpas pan fyddai ar gael GAN: Y Clerc

*9.2.3 Darn concrid – diweddaru ac ystyried dyfynbrisiau a oedd wedi cyrraedd*
Cytunwyd i ofyn am ddyfynbrisiau ar sail defnyddio 'sment cyflym'.
GWEITHREDU: Cysylltu â chontractwyr GAN: Y Clerc

*9.2.4 Gwaith trwsio i'w wneud ar ôl archwiliad ROSPA*
Angorau daear ar gyfer pystion y gôl – Gyda'r Cyng H Davies
Trwsio ffin y lle chwarae.

Adnewyddu bin y lle chwarae – y Cyng S Kings i'w wneud os yw'n bosibl
Gât sy'n cau ohoni ei hun i'r lle chwarae – gyda'r Cyng H Davies
Angen tocio'r llwyni a'r tyfiant yn y cornel a'r clawdd terfyn yn sylweddol – trefnu ymweliad safle gyda chontractiwr.

Ailosod y fainc bicnic ar ôl i'r llwybr concrid gael ei adnewyddu.
Mainc bicnic y plant. Yn cael ei storio. Ei gosod pan fyddai'r llwybr yn barod.

*9.2.5 Llythyr CSC ynglŷn â mannau chwarae*
Nodwyd.

*9.3 Eglwys y Groes Sanctaidd, Llechryd*
9.3.1 Roedd yr asesiad risg wedi ei anfon o gwmpas a chafodd ei gymeradwyo. Nodwyd bod y Cadeirydd wedi darparu lluniau o'r holl gerrig beddau a'r ymylon i gyfeirio atynt yn y dyfodol.
9.3.2 Roedd yn bosibl fod y Clerc wedi dod o hyd i gontractiwr i roi dyfynbris am adnewyddu neu ailosod y llechi a oedd wedi eu niweidio.
GWEITHREDU: Dilyn hyn GAN: Y Clerc

## 10. Digwyddiadau
*10.1 Gosod torch ar Sul y Cofio*
Byddai'r Cadeirydd yn gosod y dorch ar 11.11.20.

*10.2 Goleuadau'r Nadolig*
Cytunwyd i roi awdurdod dirprwyo i gytuno ar ddyfynbris i'r Clerc, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd os byddai'r dyfynbris yn debyg i'r un y llynedd.

**11. Adroddiadau cyfarfodydd**
Derbyn unrhyw adroddiadau.
*11.1 Cyng I Davies – Llywodraethwyr Ysgol – dim byd i'w ddweud*
*11.2 Cyng H Davies – Neuadd y Cwrwgl – wedi'i ohirio*

**12. Correspondence (i gynnwys dogfennau ymgynghori heb eu cynnwys dan unrhyw bennawd arall)**
*12.1 Gohebiaeth wedi'i nodi.*

Playlist for Life – Elusen Cerddoriaeth Dementia – AM DDIM Adnoddau newydd a Gwybodaeth wedi'u hychwanegu at dudalen FB y pentref.

Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru

Taflenni gwrth-semitiaeth – gwybodaeth wedi dod i law.

12.2.1 Ymgynghoriad ar Gyd-bwyllgorau Corfforaethol. Dyddiad cau 4 Ionawr 2021.

12.2.2 Ymgynghoriad ar Sefydlu Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

**13. Materion Personol Cyfnewid Gwybodaeth Cynghorwyr**
Cadarnhawyd bod CSC wedi cael gwybod am y clawdd o oedd wedi gordyfu gyferbyn â thafarn y Carpenters.

Mynegwyd pryder am y polisi gosod ar sail diddordeb lleol ar Ystâd Glannant. Cytunwyd i wahodd aelod o staff Wales and West i'r cyfarfod nesaf i drafod y pryderon.
GWEITHREDU: Y CS Clive Davies i ddarparu gwybodaeth gyswllt i'r Clerc.

Cytunwyd i ysgrifennu llythyr at yr Ysgol i longyfarch y staff a'r disgyblion am eu gwaith caled yn ystod y pandemig Covid.

**14. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 7.12.20**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 21.30pm.*